# Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

**2013 dccc 5**

*Cydsynio*

**9 Gweithgareddau sy’n ymwneud â deunydd o oedolion nad yw’r galluedd ganddynt i gydsynio**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo gweithgaredd trawsblannu o fewn adran 3(2)(c) neu (d) (storio neu ddefnyddio deunydd perthnasol sydd wedi dod o gorff dynol) sy’n cael ei wneud yng Nghymru yn ymwneud â deunydd perthnasol o gorff person (“P”) —

(i) sy’n oedolyn, a

(ii) nad yw’r galluedd ganddo i gydsynio â’r gweithgaredd, a

(b) pan na fo unrhyw benderfyniad gan P i gydsynio, neu i beidio â chydsynio, i’r gweithgaredd mewn grym.

(2) Ystyrir bod P wedi cydsynio i’r gweithgaredd os yw’r gweithgaredd wedi ei wneud mewn amgylchiadau o fath a bennir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 21(1)**

**I2** A. 9 mewn grym ar 12.9.2015 at ddibenion penodedig gan O.S. 2015/1679, **ergl. 2(a)**

**I3** A. 9 mewn grym ar 1.12.2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2015/1679, **ergl. 3(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, Adran 9.